Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Crug Glas
# Stryd Croft
# Abertawe
# SA1 1QA

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Crug Glas yn gwneud cynnydd da dros gyfnod yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio'n dda iawn â'i gilydd i gefnogi dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon ar draws yr ysgol yn nodi cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau ehangach, er enghraifft gweithio gydag eraill a medrau meddwl. Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad i'w disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir iawn ar gyfer yr ysgol, ac mae'n darparu cyfeiriad cadarn i'r holl staff. Fodd bynnag, nid yw rôl aelodau eraill yr uwch dîm arweinyddiaeth wedi'i datblygu'n ddigonol.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynllunio ar gyfer dilyniant mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu'u medrau ehangach

A3 Sicrhau bod yr holl arweinwyr yn cyfrannu'n effeithiol at weithgareddau hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a sicrhau ansawdd

A4 Datblygu rôl y llywodraethwyr, fel eu bod yn darparu cymorth a her effeithiol i'r ysgol

A5 Darparu cyfleoedd rheolaidd i staff arsylwi arfer dda er mwyn gwella safonau a darpariaeth yn yr ysgol

## Prif ganfyddiadau

| 1: Safonau | Da |
|---|---|

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Crug Glas yn gwneud cynnydd da dros gyfnod yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Gwnânt gynnydd cryf o ran cyflawni'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau), sydd wedi'u cysylltu'n agos â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh) a'r deunyddiau asesu Ar Drywydd Dysgu.

Nid oes unrhyw wahaniaeth nodedig yng nghynnydd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol na rhwng bechgyn a merched. Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn erbyn meincnodau cenedlaethol oherwydd anghenion iechyd penodol a chymhleth iawn llawer o'r disgyblion yn yr ysgol.

Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy abl yn cofio dysgu blaenorol yn dda. Mewn sesiynau therapi adlamu, mae disgyblion yn gwybod beth yw eu harferion a gallant ragweld gweithgareddau a chychwyn symudiadau a ddysgwyd mewn sesiynau blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau cyfathrebu ac maent yn gallu mynegi eu hanghenion a'u teimladau. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi'u mwynhad o weithgareddau drwy ymateb yn llafar i fideos a ffotograffau.

Mae disgyblion yn defnyddio ystod o systemau unigoledig priodol â chymorth a heb gymorth, er enghraifft cymhorthion cyfathrebu cynhyrchu llais, arwyddion, ystumiau a geirfa cyfnewid lluniau gweledol. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o dechnoleg llygad-syllu a gallant gychwyn sgyrsiau a mynegi dymuniad i gael dewis penodol o fyrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u medrau rhifedd a llythrennedd. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol ar draws pob maes dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion mwy abl yn darllen testun anghyfarwydd fel rhan o'r drefn gyfarch foreol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac mae ychydig yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r medrau hyn i hyrwyddo annibyniaeth. Er enghraifft, mae un disgybl yn defnyddio llwyfan symud a switsh i symud o gwmpas y coridorau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a 5 yn datblygu'u medrau byw'n annibynnol a'u medrau cymdeithasol drwy ystod o weithgareddau yn y gymuned. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn wrth ddatblygu prosiect menter llwyddiannus.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae mwyafrif o'r rhai a adawodd yr ysgol wedi symud ymlaen at ddarpariaeth gwasanaethau dydd. Mae lleiafrif wedi mynd ymlaen i'r coleg addysg bellach lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru trwy ddefnyddio'r Gymraeg mewn arferion dyddiol, caneuon, a storïau synhwyraidd.

| 2: Lles ac agweddau at ddysgu | Da |
|---|---|

Mae disgyblion yn Ysgol Crug Glas yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn meithrin perthnasoedd cryf gydag aelodau staff ac yn dilyn cyfarwyddiadau staff yn ofalus.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda trwy gydol y diwrnod ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd addas gyda'u dysgu. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn setlo'n gyflym i ymgymryd â thasgau ac mae mwyafrif yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau amser estynedig. Mae llawer o ddisgyblion yn dysgu i ddilyn arferion ac yn cynorthwyo staff yn dda wrth symud rhwng darnau o offer neu wrth newid gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithredu'n dda â'u cyfoedion. Yn ystod gweithgareddau dosbarth cyfan, maent yn gwrando ar ei gilydd ac yn disgwyl yn amyneddgar am eu tro i gyfrannu. Yn ystod amseroedd chwarae, maent yn chwarae'n ddiogel â'i gilydd ac yn rhannu offer. Mae disgyblion yn groesawgar ac yn foesgar i ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u hyder a'u medrau cymdeithasol trwy weithgareddau cynlluniedig rheolaidd yn y gymuned leol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu hiechyd trwy gymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod eang o ymyriadau therapiwtig effeithiol fel therapi cerdd, therapi adlam a hydrotherapi. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd yn ystod y diwrnod ysgol i roi eu barn a gwneud dewisiadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwd mewn gweithgareddau corfforol ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut i gadw eu hunain yn iach. Maent yn elwa o wneud ymarfer corff rheolaidd yn ystod y sesiynau cylchol synhwyraidd dyddiol yn neuadd yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dewis bwydydd iach amser cinio.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion sy'n fwy abl yn datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am wneud gorchwylion o amgylch yr ysgol. Er enghraifft, maent yn casglu deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu ac yn casglu cofrestri dosbarth o'r swyddfa ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

| 3: Addysgu a phrofiadau dysgu | Digonol, angen gwella |
|---|---|

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae ymyriadau wedi'u cynllunio'n dda yn cynorthwyo disgyblion i ddilyn y cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys mewnbwn gan staff meddygol a therapiwtig arbenigol a chyfleoedd wedi'u cynllunio o fewn y cwricwlwm, er enghraifft therapi cerdd, sesiynau cylchol synhwyraidd a therapi tylino dawns.

Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn darparu'n briodol ar gyfer anghenion disgyblion, ac mae'n cynnwys ystod addas o weithgareddau wedi'u cynllunio'n ofalus sy'n cynnal diddordeb disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw mannau awyr agored yn cefnogi cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymweld â mannau o ddiddordeb, er enghraifft amgueddfa, theatr a fferm. Yng nghyfnod allweddol 4 a 5, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu'u hymgysylltiad â'r gymuned. Fodd bynnag, cyfyngedig yw cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn profiadau syn gysylltiedig â gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd.

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac mae angen ei wella. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio â'i gilydd yn dda iawn i gefnogi dysgu ac ymddygiad disgyblion. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn barod i ddysgu. Mae cynorthwywyr addysgu yn rheoli anghenion gofal personol ac anghenion therapiwtig disgyblion yn sensitif ac yn effeithiol fel eu bod yn gallu parhau â'u dysgu gyda chyn lleied o ymyrraeth â phosibl.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u gwersi yn briodol i gynnwys ystod o weithgareddau ac adnoddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae amcanion clir gan athrawon ar gyfer dysgu sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn cysylltu'n dda â thargedau yng nghynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion. Mewn lleiafrif o wersi, fodd bynnag, nid yw gweithgareddau yn cyfateb yn ddigon da i anghenion a galluoedd disgyblion unigol. Mewn lleiafrif o wersi, mae cyflymder gwersi'n rhy araf ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae athrawon yn paratoi cynlluniau gwaith sy'n cynnwys gweithgareddau addas wedi'u teilwra yn ôl diddordeb disgyblion. Mewn llawer o wersi, ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio wedi'i ddatblygu'n ddigonol i ddatblygu'r medrau hyn yn gyson ar draws yr holl ddosbarthiadau a'r cyfnodau allweddol i sicrhau dilyniant. At ei gilydd, nid yw cynlluniau athrawon yn mynd i'r afael â medrau ehangach disgyblion, er enghraifft gweithio gydag eraill a medrau meddwl. O ganlyniad, mae cyfleoedd yn cael eu colli i ddatblygu dysgu disgyblion mewn medrau pwysig y bydd eu hangen arnynt mewn bywyd yn y dyfodol.

Ym mron pob un o'r gwersi, mae staff yn darparu adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu helpu i gynnal eu ffocws a myfyrio ar eu dysgu. Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh i gofnodi dysgu disgyblion a datblygu'u gallu i asesu eu perfformiad eu hunain.

| **4: Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
|---|---|

Ceir ethos cadarnhaol iawn a chynhwysol yn Ysgol Crug Glas, ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth yn dda. Mae'n gymuned anogol lle caiff plant eu gwerthfawrogi'n fawr a'u parchu.

Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion. Mae staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda. Maent yn cynhyrchu cynlluniau manwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac maent yn crynhoi anghenion

dysgu a lles unigol bob plentyn yn glir. O ganlyniad, mae staff yn darparu cymorth sy'n cyfateb yn dda i anghenion a galluoedd dynodedig pob disgybl. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lywio targedau yn y CAU.

Mae staff yn gweithio'n dda gyda nyrsys a therapyddion i sicrhau bod anghenion iechyd disgyblion yn cael eu diwallu'n dda. Er enghraifft, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cyflwyno rhaglenni a osodwyd gan therapyddion ar gyfer disgyblion unigol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio ystod briodol o gymhorthion cyfathrebu ac offer arbenigol fel fframiau sefyll a seddi sydd wedi'u haddasu at anghenion penodol disgyblion unigol.

Ceir polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn yr ysgol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys pwyslais priodol mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ar wneud dewisiadau bwyd iach a phwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Darperir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau cylchol synhwyraidd dyddiol yn y neuadd ac ar y safle, sesiynau hydrotherapi rheolaidd a therapi adlam. Mae'r rhaglen ABCh yn darparu gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion sy'n briodol i'w hoed a'u hanghenion am ystod o faterion pwysig, gan gynnwys rhyw a pherthnasoedd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a digwyddiadau celfyddydau creadigol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau diddorol i ddisgyblion archwilio cerddoriaeth, bwyd a thraddodiadau diwylliannol De America, a chyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau cerdd a drama gyda disgyblion o ysgolion prif ffrwd lleol.

Lle bo'n briodol, mae gan ddisgyblion gynlluniau ymddygiad unigol (CYUau). Mae'r rhain yn nodi targedau addas a strategaethau sy'n helpu staff i reoli ymddygiad disgyblion yn dda. O ganlyniad, dros y flwyddyn ddiwethaf, dim ond ychydig iawn o ddigwyddiadau ymddygiad annerbyniol a gafwyd. Dros y tair blynedd diwethaf, ni chollwyd unrhyw ddiwrnodau yn sgil gwaharddiadau.

Caiff rhieni ystod eang o wybodaeth am brofiadau eu plentyn yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys dyddiaduron dyddiol rhwng yr ysgol a'r cartref, cyflwyniadau clyweledol, cofnodion o gyflawniad ar ddiwedd cyfnod allweddol ac adroddiadau ysgrifenedig llawn gwybodaeth. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw adroddiadau ysgrifenedig yn darparu digon o wybodaeth am y cynnydd a wna disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

| **5: Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol, angen gwella** |
|---|---|

Mae gweledigaeth glir iawn gan y pennaeth ar gyfer yr ysgol ac mae'n darparu cyfeiriad cryf i'r holl staff. Mae ganddi ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu, ac adlewyrchir y rhain yn gywir yn yr adroddiad hunanarfarnu manwl a chynllun gwella'r ysgol. Mae wedi mynd i'r afael â materion pwysig yn

ddiymdroi, er enghraifft materion iechyd a diogelwch, cofnodi presenoldeb a gweithdrefnau ar gyfer delio ag absenoldeb staff. Mae’r gwelliannau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff.

Fodd bynnag, nid yw rôl aelodau eraill yr uwch dîm arwain fel arweinwyr a rheolwyr strategol wedi’i datblygu’n ddigonol. Nid ydynt yn cyfrannu’n effeithiol at weithgareddau hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a sicrhau ansawdd. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar allu’r pennaeth i symud yr ysgol yn ei blaen mewn modd amserol.

Yn briodol, mae’r ysgol wedi mabwysiadu strwythur staffio newydd sy’n galluogi staff ar lefelau gwahanol i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain. Mae hyn yn helpu’r ysgol i fynd i’r afael â blaenoriaethau allweddol, er enghraifft llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae staff sy’n gyfrifol am y meysydd hyn yn dechrau datblygu’u rôl strategol.

Ceir systemau sydd wedi’u sefydlu’n dda ar gyfer rheoli perfformiad athrawon. Mae amcanion yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau cynllun datblygu’r ysgol. Rhoddir ffocws clir ar addysgu a dysgu mewn arsylwadau o wersi. Yn ddiweddar, mae’r pennaeth wedi cyflwyno systemau priodol ar gyfer monitro perfformiad cynorthwywyr addysgu.

Mae ystod briodol o bolisïau addas a chlir gan yr ysgol ac fe’u deellir yn dda. Caiff y rhain eu hadolygu’n rheolaidd gan y pennaeth a’r corff llywodraethol.

Mae’r pennaeth yn gweithio’n dda gyda’r awdurdod lleol a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol i sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli’n effeithiol. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o’r adnoddau sydd ganddi, ac mae wedi cymryd camau i wella’r amgylchedd dysgu. Defnyddir grantiau’n briodol i gynorthwyo disgyblion targedig.

Mae’r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth defnyddiol i’r pennaeth drwy’r is-bwyllgorau cyllid a staffio. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr yn cynnig her gadarn i’r ysgol. Gwybodaeth gyfyngedig a gânt am gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyfrannu at broses hunanarfarnu’r ysgol.

Mae’r ysgol yn defnyddio staff yn effeithiol. Mae athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff iechyd yn gweithio’n eithriadol o dda â’i gilydd i fynd i’r afael ag anghenion disgyblion unigol. Mae’r ysgol yn darparu hyfforddiant perthnasol i staff, er enghraifft mewn rheoli ymddygiad, codi a chario, diogelu a rheoli cyflyrau meddygol.

Mae’r ysgol wedi datblygu partneriaethau buddiol sy’n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu disgyblion. Mae ymweliadau rheolaidd â chyfleusterau addysgu arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd lleol yn galluogi ychydig iawn o ddisgyblion i ddatblygu’u medrau cymdeithasol a’u hyder. Mae disgyblion yn elwa o gyfranogiad yr ysgol mewn cynllun cenedlaethol i hyrwyddo meddwl yn greadigol. Yn ddiweddar, mae staff wedi cael cyfleoedd defnyddiol i ymweld ag ysgolion eraill. Mae hyn wedi’u helpu i ddatblygu strategaethau i gynorthwyo anghenion cyfathrebu disgyblion. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ddigon clir gan staff o arfer dda o fewn y sector.

## Ynglŷn â’r ysgol

Ysgol arbennig i ddisgyblion 3 i 19 oed ag anawsterau dysgu lluosog neu ddifrifol a chymhleth yw Ysgol Crug Glas. Mae anawsterau cyfathrebu, ymddygiadol neu synhwyraidd cysylltiedig gan lawer ohonynt, ac mae gofynion gofal iechyd penodol iawn gan nifer sylweddol. Dros y tair blynedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer y disgyblion ag anhwylderau’r sbectrwm awtistig.

Mae 57 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Daw’r rhan fwyaf o ddisgyblion o ardal Abertawe, a daw ychydig ohonynt o awdurdodau lleol eraill. Mae gan bob un o’r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Ar hyn o bryd, mae tua 14% o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae rhyw 30% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i deuluoedd ychydig o ddisgyblion. Oherwydd eu hanghenion, fodd bynnag, Saesneg yw’r iaith a ddefnyddir gartref gyda’r disgyblion hyn.

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei rôl yn Ionawr 2016.

Mae’r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd, ac mae’n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy’n gysylltiedig â’r cwricwlwm.

## Atodiad 1:  Tabl cryno meysydd arolygu

| | |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol, angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol, angen gwella** |

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwella** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Defnyddiom yr arolygiad hwn i roi datblygiadau i'r fframwaith arolygu cyffredin, y broses arolygu a fformat yr adroddiad arolygu ar brawf. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol cyn eu cyflwyno'n genedlaethol ym Medi 2017.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2017**